Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | **29.07.25** |
| **Pwnc / Subject:** | **Ymateb parthed Bwyta'n iach mewn ysgolion** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae rôl Estyn mewn arolygu gwaith ysgolion yn y maes hwn wedi'i disgrifio'n glir yn y canllawiau drafft. Mae Estyn yn cefnogi'r diwygiadau arfaethedig i ddiweddaru Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) a chanllawiau statudol atodol i adlewyrchu argymhellion deietegol diweddaraf Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r cynigion wedi eu llywio gan dystiolaeth, yn cyd-fynd yn glir â nodau polisi cenedlaethol, ac yn blaenoriaethu iechyd, lles a thegwch plant. Gwelir bod y newidiadau yn gymesur ac yn ymarferol, gyda safonau clir sy'n helpu pob plentyn i gael y bwyd sydd ei angen arno i gael diet iach.

Mae'r canllawiau statudol yn ddigon clir, strwythuredig a manwl, gyda thablau buddiol a chyngor ymarferol i gynorthwyo pawb sy'n gyfrifol am hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach mewn ysgolion. Mae'r gwahaniaeth rhwng dau grŵp oedran mewn ysgolion cynradd sydd â gwahanol anghenion deietegol a meintiau dognau, yn ogystal ag arweiniad ar ddarparu dietau ar bresgripsiwn meddygol ac anghenion deietegol eraill, yn ychwanegiadau cadarnhaol i'w cynnwys yn y canllawiau newydd. Fodd bynnag, mae Estyn yn argymell y dylid rhoi mwy o gymorth trwy dempledi, crynodebau gweledol, ac enghreifftiau o gynllunio bwydlenni cynhwysol i gryfhau gweithredu.

Mae'r asesiadau effaith yn nodi'r prif risgiau ond gallent gyfrif yn well am heriau gweithredu, yn enwedig o ran capasiti arlwyo, cynwysoldeb diwylliannol, a chyfranogiad ymhlith pob un o'r disgyblion, yn enwedig grwpiau dan anfantais.

- Mae'r pwyslais ar ddatblygu arferion bwyta ac yfed iach cadarnhaol cynnar, integreiddio yn y cwricwlwm, a darpariaeth briodol o ran brecwast, yn adlewyrchu ymagwedd ysgol gyfan at iechyd a lles.
- Mae'r cynigion i gynyddu darpariaeth ffrwythau, llysiau, a grawn cyflawn, cyfyngu ar fwydydd wedi'u prosesu a bwydydd braster uchel, a hyrwyddo diodydd plaen, yn cael eu croesawu am eu cyfraniad at leihau cymeriant siwgr a braster dirlawn, cefnogi iechyd y geg, a gwella tegwch maethol.
- Bydd monitro cyfranogiad ac ymgysylltu â dysgwyr yn hanfodol i gyflawni potensial y polisi i wella deilliannau iechyd a lleihau anghydraddoldeb ledled Cymru.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cinio mewn ysgolion cynradd**

**C 1: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â chynyddu darpariaeth ffrwythau, llysiau a charbohydradau starshlyd?**

**Cytuno'n gryf**

**Sylw ategol:**

Mae Estyn yn cefnogi'r cynnig i ddarparu o leiaf ddau ddogn o lysiau ac un dogn o ffrwythau, ynghyd â charbohydradau startshlyd grawn cyflawn cynyddol mewn ysgolion cynradd. Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd â strategaeth *Pwysau Iach: Cymru Iach*, sy'n rhoi pwyslais cryf ar wella'r amgylchedd bwyd ar gyfer plant a chynyddu cyfleoedd i gael opsiynau iach mewn ysgolion. Trwy gynyddu'r ddarpariaeth llysiau, ffrwythau a charbohydradau grawn cyflawn, bydd ysgolion yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod Cymru i leihau gordewdra a gwella deilliannau iechyd tymor hir.

Mae bwyta amrywiaeth o ffrwythau a llysiau o oedran cynnar yn helpu ffurfio hoffterau a blasau plant. Mae plant sy'n bwyta amrywiaeth o lysiau yn eu plentyndod cynnar yn rheolaidd yn fwy tebygol o gynnal diet iach yn eu bywyd pan fyddant yn oedolion. Mae hyn yn gyson â chyngor deietegol ac yn cefnogi iechyd corfforol, gweithrediad gwybyddol, a pharodrwydd i ddysgu. Mae hefyd yn hyrwyddo tegwch, gan sicrhau bod pob plentyn, ni waeth beth yw ei statws economaidd-gymdeithasol, yn cael cinio sy'n gyfoethog o ran maeth. Mae'r diwygiadau hyn i ganllawiau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion o 2014, yn cyd-fynd yn fwy priodol ag ymchwil wyddonol a deietegol ddiweddar.

**C 2: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â chig, cig coch a physgod?**

**Cytuno'n gryf**

**Sylw ategol:**

Rydym yn cytuno â'r ymagwedd gytbwys at ddarparu cig a physgod o fewn y cynigion. Mae darparu mwy o eglurder ar gyfer defnyddio cig coch a chig gwyn yn cefnogi'r cynllunio o fewn y fwydlen wythnosol ymhellach. Bydd amodi bod prydau'n cynnwys cig coch unwaith yr wythnos, tra'n cyfyngu hyn i ddau ddogn hefyd yn helpu lleihau risgiau iechyd posibl. Mae parhau i ddarparu pysgod bob wythnos, yn cynnwys pysgod olewog

bob pedair wythnos, yn cael ei gefnogi am ei werth maethol. Mae'r diwygiadau hyn i ganllawiau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion o 2014, yn cyd-fynd yn fwy priodol ag ymchwil wyddonol a deietegol ddiweddar. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cefnogi egwyddorion iechyd ac maent yn ymarferol i'w cyflawni gyda lefel hylaw o newid.

**C 3: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â chig wedi'i brosesu?**

**Cytuno'n gryf**

**Sylw ategol:**

Rydym yn cytuno bod ailddosbarthu ham a bacwn yn gynhyrchion wedi'u prosesu yn ddiweddariad pwysig sy'n cyd-fynd yn synhwyrol â chyngor deietegol y Deyrnas Unedig. Rydym hefyd yn cefnogi lleihau'r defnydd o gig wedi'i brosesu i unwaith yr wythnos. Mae'n adlewyrchu tystiolaeth gadarn sy'n cysylltu cigoedd wedi'u prosesu â deilliannau iechyd gwael ac yn ymateb i'r anghydraddoldeb maethol a welir mewn plant o gefndiroedd incwm is. Mae'n newid hylaw ac ystyrlon mewn arfer arlwyo ysgol sy'n atgyfnerthu arferion deietegol da o oedran cynnar.

**C 4: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion sy'n ymwneud ag opsiynau nad ydynt yn rhai cig (yn cyfyngu ar seigiau caws a dewisiadau eraill yn lle cig a physgod wedi'u prosesu, yn benodol?)**

**Cytuno**

**Sylw ategol:**

Rydym yn cytuno bod cyfyngu ar brif brydau caws a dewisiadau eraill nad ydynt yn gig wedi'i brosesu'n sylweddol yn mynd i'r afael â bwyta gormod o fraster dirlawn a sodiwm. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod buddion maethol cynhyrchion llaeth fel caws ac iogwrt, yn enwedig fel ffynonellau allweddol o galsiwm, protein, a fitaminau A a B12. Byddai'r cynigion yn gryfach pe baent yn cynnwys defnyddio opsiynau llaeth â llai o fraster a phlateidiau gyda'r dognau'n cael eu rheoli i helpu cadw faint o galsiwm sy'n cael ei fwyta heb gynyddu lefelau braster dirlawn yn sylweddol. Gellid ystyried cyfleoedd i blant gael opsiynau llaeth braster is fel dewisiadau eraill i helpu cynnal lefelau o galsiwm ar y fwydlen i blant. Mae annog proteinau amrywiol, o blanhigion (e.e. codlysiau) yn

cefnogi bwydlen fwy cytbwys ac yn osgoi dibynnu'n ormodol ar opsiynau llysieuol wedi'u prosesu, y mae llawer ohonynt yn wael o ran maetholion.

Rydym yn awgrymu ymhellach y dylid monitro i sicrhau bod opsiynau llysieuol yn parhau i fod yn apelgar, yn gytbwys, ac yn ddigonol yn faethol, gan osgoi amnewid diofyn ag eitemau sy'n cynnwys llawer o gaws neu eitemau wedi'u prosesu o blanhigion.

**C 5: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â thatws wedi'u coginio mewn olew, bwydydd wedi'u ffrio, nwyddau wedi'u pobi a'u melysu a phwdinau, a thoes?**

**Cytuno**

**Sylw ategol:**

Rydym yn cefnogi cyfyngiadau tynnach ac eglurhad am y gwahanol ddulliau o goginio tatws mewn olew neu wedi'u ffrio'n ddwfn. Rydym hefyd yn cefnogi cyflwyno gwybodaeth i roi arweiniad i staff arlwyo ar gyfyngu cynnwys eitemau toes i unwaith yr wythnos fel dull o leihau braster dirlawn i blant. Yn yr un modd, mae cyflwyno canllawiau ar gyfer pwdinau wedi'u melysu yn cael ei chroesawu, hefyd. Mae'r rhain yn fesurau cymesur sy'n hyrwyddo arferion bwyta iachach. Mae anogaeth i gynnwys ffrwythau a llysiau mewn pwdinau yn gam wedi'i lywio gan dystiolaeth ac yn bragmataidd.

**Diodydd mewn ysgolion cynradd**

**C 6: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â darparu dŵr plaen, llaeth plaen a diodydd plaen o blanhigion yn unig mewn ysgolion cynradd?**

**Cytuno'n gryf**

**Sylw ategol:**

Mae Estyn yn rhoi cefnogaeth gref i'r cyfyngiad arfaethedig i ganiatáu dim ond dŵr plaen, llaeth a diodydd heb eu melysu o blanhigion mewn ysgolion cynradd. Mae'r newid hwn yn cyd-fynd â blaenoriaethau iechyd cenedlaethol trwy leihau faint o siwgr mae plant yn ei gael, mynd i'r afael â gordewdra, a gwella iechyd y geg.

**Meintiau dognau mewn ysgolion cynradd**

**C 7: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion sydd wedi'u hanelu at ddarparu meintiau dognau mwy priodol mewn ysgolion cynradd ar gyfer y rhai yn y dosbarth Meithrin i Flwyddyn 2 a Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6?**

**Cytuno'n gryf**

**Sylw ategol:**

Rydym yn cefnogi'r cynigion ynghylch meintiau dognau mewn ysgolion cynradd. Mae'r canllawiau statudol drafft diwygiedig yn darparu safonau clir a mesuradwy a manylion cefnogol ar gyfer staff arlwyo ar gyfer isafswm ac uchafswm meintiau yn ôl grŵp oedran a thargedau cynllunio wythnosol. Bydd cyflwyno mesurau dognau ar wahân ar gyfer y dosbarth Meithrin i Flwyddyn 2 a Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn helpu alinio cymeriant maethol ag anghenion a chyfnodau twf plant. Nodir y grwpiau oedran yn briodol gan eu bod yn cyd-fynd â'r rhai a ddefnyddir yng nghanllawiau eraill Llywodraeth Cymru ar gyfer bwyta'n iach (Eatwell Guide). Bydd hefyd yn helpu rhoi arweiniad i staff arlwyo ar gyfer prydau bwyd lle mae meintiau dognau'n rhy fawr neu'n rhy fach, a bydd yn fwy addas i ddiwallu anghenion plant mewn gwahanol gyfnodau datblygiadol. Mae'r dull hwn yn hyrwyddo tegwch trwy sicrhau bod pob plentyn, ni waeth beth yw ei gefndir economaidd-gymdeithasol, yn cael y maint cywir o fwyd i ddiwallu ei anghenion, heb roi gormod neu ddim digon o fwyd iddo. Mae hyn yn hynod bwysig o ran cefnogi plant sydd efallai'n dibynnu ar brydau bwyd ysgol fel ffynhonnell allweddol o faeth dyddiol.

Credwn y bydd lefel yr eglurder yn y cynigion yn rhoi hyder i staff arlwyo o ran rheoli dognau a bydd yn helpu sicrhau gweithredu cyson a monitro effeithiol gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Yn ychwanegol, dylai mwy o eglurder ar gyfer dognau helpu lleihau gwastraff bwyd a lleihau i'r eithaf y gwario diangen a'r effaith negyddol ar y gyllideb arlwyo.

**Brecwast mewn ysgolion cynradd**

**C 8: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â darparu brecwast?**

**Cytuno'n gryf**

**Sylw ategol:**

Rydym yn cefnogi'r cynigion i atgyfnerthu opsiynau iach i frecwast. Rydym yn cytuno'n llawn fod tynnu sudd ffrwythau o frecwast yn gam addas i leihau cymeriant siwgr mewn ffordd debyg i'r newidiadau i'r diodydd sydd ar gael gyda chinio ysgol. Yn ychwanegol, mae cynyddu grawn cyflawn yn sicrhau bod yr hyn a gynigir i frecwast yn adlewyrchu egwyddorion diet cytbwys. Mae gwahanu meintiau dognau ar gyfer plant iau a babanod a ddarperir yn y canllawiau statudol ar gyfer brecwast, mewn ffordd debyg i brydau bwyd cinio, hefyd yn cael ei groesawu. Mae'r canllawiau'n cynnig eglurder digonol ac yn cyd-fynd â strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach.

**Y canllawiau rheoliadau cynradd**

**C 9: A yw'r canllawiau statudol drafft yn cynorthwyo arlwywyr bwyd ysgolion cynradd (Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn ysgolion: canllawiau statudol drafft ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol) i weithredu'r rheoliadau drafft yn ddigon clir?**

**Ydyn**

**Sylw ategol:**

Mae'r canllawiau statudol drafft wedi'u strwythuro'n dda ac yn fanwl. Maent yn cynnig meintiau dognau ymarferol, gofynion bwydlenni wythnosol, ac enghreifftiau o weithredu y gall ysgolion eu defnyddio'n hawdd wrth gynllunio'u bwydlenni ysgol.

Mae'r tablau gyda'r trosolwg ar gyfer pob grŵp bwyd ynghyd â gofynion, dehongliad ac argymhellion, yn ei gwneud yn glir i staff beth a fwriedir ar gyfer pob grŵp (tud.15-tud.29). Bydd y lefel ddefnyddiol hon o wybodaeth yn esbonio buddion a gofynion pob un o'r mathau o fwyd i gynorthwyo staff arlwyo i ddatblygu eu gwybodaeth yn fuddiol o ran addasrwydd pob agwedd ar gyfer plant. Mae'r adran ar egni a safonau maethol ar gyfer plant 4 - 6 oed a phlant 7 - 10 oed (tud.39 - tud.50) yn helpu staff arlwyo i greu prydau bwyd addas sy'n diwallu anghenion maethol plant ifanc a ddylai helpu sicrhau cydbwysedd rhwng mewnbwn ac allbwn egni i leihau trwy golli neu fagu pwysau. Mae'r is-adrannau'n cynnig cyngor ymarferol buddiol i helpu staff arlwyo a gwella'r ansawdd a'r gwerthoedd maethol ar gyfer paratoi prydau bwyd. Mae cynnwys diffiniadau a disgwyliadau clir ar gyfer pob grŵp bwyd, yn cynnwys eitemau gorfodol ac eitemau wedi'u gwahardd, yn fuddiol.

Mae angen ei gwneud yn glir i ysgolion am y newid o un ddogfen (Bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir, 2014) i'r ddwy ddogfen arfaethedig er mwyn iddynt allu eu defnyddio gyda'i gilydd i wneud penderfyniadau priodol ar gyfer bwydlenni mewn ysgolion.

Gallai cymorth ychwanegol fel templedi ar gyfer bwydlenni, taflenni cyfeirio cyflym syml gyda chyngor ymarferol ac astudiaethau achos gryfhau eglurder y cyngor ymhellach a magu hyder staff arlwyo, yn enwedig mewn lleoliadau llai sydd â llai o staff arlwyo.

I sicrhau bod y llinellau amser uchelgeisiol (rheoliadau yn fyw o 2026-27 a chanllawiau i'w cwblhau erbyn Rhagfyr 2025) yn realistig, gallai fod yn werth ystyried cyhoeddi map ffordd ar gyfer gweithredu graddol. Gallai hyn o bosibl amlinellu unrhyw grantiau cyfalaf ar gyfer adnewyddu ceginau ac offer cegin; a rhaglen DPP genedlaethol ar gyfer timau arlwyo (e.e. datblygu ryseitiau, rheoli dognau, rheoli alergenau); a bwydlenni peilot mewn sampl gynrychioliadol o ysgolion i nodi unrhyw faterion gweithredol cyn eu cyflwyno'n llawn.

Efallai byddai'n werth ystyried sut i fonitro effaith. Er enghraifft, gallai ychydig o awgrymiadau ar gyfer datblygu **dull monitro a gwerthuso syml a chyffredin** o fewn y canllawiau statudol lywio'n ddefnyddiol ar bwysigrwydd monitro effaith unrhyw newidiadau. Gallai dangosyddion allweddol a gesglir gynnwys, er enghraifft, cymeriant prydau bwyd (cyffredinol a chymwys i gael prydau ysgol am ddim); canlyniadau archwiliadau gwastraff platiau o bryd i'w gilydd; canfyddiadau boddhad disgyblion; a hapwiriadau cydymffurfio yn erbyn y safonau maethol.

**Dietau arbennig**

**C 10: A yw'r canllawiau statudol drafft ar ddarparu gofynion deietegol ar bresgripsiwn meddygol a gofynion deietegol eraill yn ddigon clir?**

**Ydyn**

**Sylw ategol:**

Mae'r canllawiau ar ddietau ar bresgripsiwn meddygol ac anghenion deietegol eraill yn ddigon clir ac yn cynnig gwahaniaethu pwysig rhwng gofynion statudol ac arfer dda. Mae cydnabod y ddau grŵp gwahanol yn fuddiol. Mae cynnwys eglurder o fewn y canllawiau ynghylch rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn arbennig o fuddiol. Ceir canllawiau buddiol ar gymhwyso addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion ag anableddau, anghenion diwylliannol, neu gyflyrau gofal iechyd (e.e. alergeddau, diabetes, sensitifrwydd y synhwyrau) gyda ffocws parhaus ar gynnal disgwyliadau uchel ar gyfer bwyta'n iach o fewn lleoliad yr ysgol. Ceir awgrymiadau buddiol ar gyfer sut gall staff arlwyo gyfrannu'n briodol at gynlluniau gofal iechyd (CGIau) unigol neu gynlluniau datblygu unigol (CDUau). Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar blant anabl a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol cysylltiedig, a dylid ei rannu â staff meddygol a staff

anghenion dysgu ychwanegol i sicrhau bod pob un o'r rhanddeiliaid yn cefnogi gofynion deietegol disgyblion o fewn fframwaith cynhwysol i hybu iechyd.

**Asesiad effaith rheoleiddiol ac ehangach**

**C 11: Pa heriau, os o gwbl, y dylid eu cydnabod ymhellach o fewn yr asesiad effaith rheoleiddiol drafft, yn eich barn chi?**

Er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn nodi pryderon am gyfranogi ymhlith plant sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, mae angen cydnabod yn ddwysach yr effaith ar degwch os yw cyfranogiad yn gostwng. Gallai amlygu'n well sut gallai hyn gynyddu ansicrwydd bwyd aelwydydd trwy amryfusedd, yn enwedig lle mae dysgwyr yn gwrthod prydau bwyd ysgol oherwydd opsiynau anghyfarwydd neu anneniadol. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer y rhai sydd â chyfyngiadau deietegol, sensitifrwydd y synhwyrau neu ofynion diwylliannol.

Mae angen mwy o asesu a chydnabyddiaeth fwy eglur o amgylch cyfyngiadau capasiti ceginau a staff, yn enwedig mewn ysgolion bach neu wledig sydd â chyfleusterau prin. Heb eglurder ynghylch cyllid, gallai'r gallu i gyflenwi meintiau uwch o fwyd ffres, yn cynnwys llysiau, grawn, a phrydau bwyd poeth, herio gweithredu cyson, a gellid eu peryglu. Gallai pwysau yn y gadwyn gyflenwi ac argaeledd tymhorol gyfyngu ar ystod lawn yr amrywiaethau o ffrwythau a llysiau, a gallai ysgolion mewn ardaloedd gwledig neu rai sydd dan anfantais yn economaidd wynebu costau uwch.

Crybwyllir risg dieithrio disgyblion oherwydd darpariaeth annigonol o ddietau Halal, Kosher, neu lysieuol ond caiff ei dan-bwysleisio. Gallai profiadau negyddol yma wthio disgyblion i ffwrdd rhag cael prydau ysgol, a dyfnhau anghydraddoldeb. Byddai mwy o gydnabyddiaeth i effaith y newidiadau ar gynwysoldeb diwylliannol a chrefyddol yn cael ei chroesawu.

Gallai fod yn fuddiol cryfhau'r gofynion i ofyn am adborth ynghylch pam nad yw plant a theuluoedd yn manteisio ar brydau ysgol am ddim lle mae ganddynt hawl i'w cael.

**C 12: Pa effeithiau cadarnhaol, os o gwbl, y dylid eu cydnabod ymhellach o fewn yr asesiad effaith rheoleiddiol drafft, yn eich barn chi?**

Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn sôn yn fras am "ddull ysgol gyfan," ond nid yw'n archwilio'n llawn sut gall y rheoliadau diwygiedig gryfhau cyflwyno'r cwricwlwm, yn enwedig trwy'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Gallai cysylltiadau trawsgwricwlaidd rhwng bwyd, addysg, iechyd corfforol, cynaliadwyedd, a hunaniaeth ddiwylliannol,

gyfoethogi profiad dysgwyr yn sylweddol a dyfnhau dealltwriaeth o arferion iach gydol oes.

Ceir cydnabyddiaeth gyfyngedig o ran sut gall amgylcheddau bwyd ysgol gwell feithrin datblygiad cymdeithasol, lleihau gorbryder yn ystod amser prydau bwyd, a gwella cynwysoldeb, yn enwedig ar gyfer plant niwroamrywiol neu'r rhai ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol. Mae amgylchedd cinio cadarnhaol a chefnogol yn hyrwyddo ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn, sydd yn ei dro yn fuddiol i ddysgu a lles.

Er bod y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim gyffredinol wedi'i nodi, gallai'r asesiad effaith rheoleiddiol amlygu'n glir y modd y gall prydau ysgol sy'n gyson iach a deniadol leihau stigma ar gyfer dysgwyr incwm isel. Pan mae prydau bwyd maethol yn safon i bawb, mae plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llai tebygol o deimlo'n wahanol neu fel pe baent ar yr ymylon, gan gefnogi nodau cynhwysiant a thegwch ehangach.

Mae Estyn yn croesawu'r cysylltiad clir â Sero Net ac efallai byddai'n werth ystyried bod y rheoliadau terfynol yn gosod **targedau cynaliadwyedd clir**, er enghraifft:

- isafswm canran o gynnyrch wedi'i dyfu yng Nghymru neu a brynwyd yn lleol;
- cyhoeddi data ôl-troed carbon ar gyfer bwydlenni (oni bai bod hyn yn rhy feichus); a
- lleihau pecynnu defnydd untro yn raddol;
- gellid defnyddio astudiaethau achos o gynlluniau peilot caffael ysgol-fferm presennol i ddangos modelau ymarferol sy'n cyfoethogi cyflwyno'r cwricwlwm ar yr un pryd.

**C 13: Pa sylwadau, os o gwbl, sydd gennych chi ar yr asesiadau effaith drafft, yn enwedig effaith y rheoliadau drafft ar blant, teuluoedd sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol a phobl â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys tystiolaeth y dylid ei hystyried, yn eich barn chi)?**

Mae'r rheoliadau drafft a'r canllawiau atodol yn anelu'n glir at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol. Mae gan y cynnig prydau ysgol am ddim cyffredinol, pan gaiff ei gyfuno â safonau bwyd iachach, y potensial i leihau llwgu ymhlith plant yn sylweddol a gwella cyrhaeddiad addysgol. Fodd bynnag, mae cyfranogi'n parhau i fod yn newidyn hanfodol. Mae'r asesiadau'n cydnabod y gallai unrhyw ostyngiad yn y nifer sy'n cael prydau ysgol gael effaith anghymesur ar deuluoedd incwm isel, gan eu gorfodi i ddarparu ciniawau pecyn a allai fod yn llai maethol ac yn feichus yn ariannol. Yn y tymor byr, gallai cyfyngiadau o ran bwydlenni newydd (e.e. ar gig wedi'i brosesu neu eitemau siwgraidd) rwystro rhai plant rhag bwyta prydau ysgol, gan gynyddu risg llwgu, yn enwedig mewn aelwydydd sy'n wynebu ansicrwydd bwyd.

Mae hyn yn hynod berthnasol yng nghyd-destun pwysau costau byw parhaus. Yn gyflin â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Rhan 1), credwn y byddai'r canllawiau yn gryfach trwy ystyried:

- cyfraddau monitro wedi'u dadgyfuno o ran y nifer sy'n cael prydau bwyd yn ôl cymhwyster i gael Prydau Ysgol Am Ddim, ADY, a chefndir ethnig, i ddarganfod gwahaniaethau cynnar; a
- strategaethau ymgysylltu lleol targedig i gynnal neu wella cyfranogiad ymhlith grwpiau dan anfantais, yn enwedig lle gallai safonau newydd leihau apêl i ddechrau.

Mae'r canllawiau'n cryfhau'n gywir y dyletswyddau ynghylch darparu dietau ar bresgripsiwn meddygol ac addasiadau angenrheidiol ar gyfer disgyblion yng Nghymru sydd â CDUau a CGIau ADY cysylltiedig. Fodd bynnag, i sicrhau cysondeb a chynnal hawliau disgyblion anabl a'r rhai ag ADY (yn unol â'r Cod ADY), dylai Llywodraeth Cymru ystyried:

- datblygu pecyn cymorth neu brotocol cenedlaethol ar gyfer gweithredu arferion deietegol cynhwysol ar draws lleoliadau addysg;
- darparu hyfforddiant a chyllid wedi'u canoli i sicrhau bod pob ysgol yn gallu darparu'n ddiogel ac yn briodol ar gyfer anghenion deietegol, synhwyraidd neu anghenion yn gysylltiedig â bwydo. Mae plant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a chymunedau crefyddol (e.e. disgyblion Moslemaidd neu Iddewig y mae angen opsiynau Halal neu Kosher arnynt) mewn perygl o gael eu heithrio os na chaiff prydau bwyd sy'n ddiwylliannol briodol eu darparu.

I fodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, dylai Llywodraeth Cymru:

- ofyn am gael cyd-gynllunio bwydlenni gyda chymunedau a grwpiau disgyblion lleol;
- archwilio fframweithiau caffael neu gymorth canolog ar gyfer dod o hyd i brydau bwyd ag ardystiad Halal / Kosher neu brydau bwyd llysieuol cyfatebol.

Efallai byddai'n werth ystyried mabwysiadu ffurflen asesu risg templed cenedlaethol a matrics addasu bwydlenni fel bod pob awdurdod lleol yn dilyn prosesau cyson wrth ddarparu ar gyfer dietau meddygol, diwylliannol neu grefyddol. Pan fydd meintiau'n isel, dylid ystyried clustnodi cyllid ar gyfer cynhyrchu prydau bwyd halal, kosher neu rai sy'n ddiogel ar gyfer alergenau, er mwyn osgoi annhegwch.

Er bod sylw'n cael ei roi i dueddiadau rhywedd mewn gordewdra ac anhwylderau bwyta, prin yw'r dadansoddi sylweddol o sut gallai dyluniadau bwydlenni neu negeseuon am fwyd effeithio ar fechgyn a merched yn wahanol, na sut gall ysgolion fynd i'r afael yn sensitif â delwedd y corff, hunaniaeth rhywedd a niwroamrywiaeth trwy bolisi bwyd ac integreiddio yn y cwricwlwm. Mae'r rhain yn feysydd sensitif y mae angen eu rheoli'n ofalus o fewn ysgolion.

**C 14: Pa sylwadau, os o gwbl, sydd gennych chi ar beth fyddai'r effaith ar gostau (gan gynnwys tystiolaeth y dylid ei hystyried, yn eich barn chi)?**

I reoli newidiadau i'r rheoliadau, gallai fod angen sylweddol am fuddsoddiad cyfalaf i uwchraddio cyfleusterau cegin a seilwaith arlwyo sydd eisoes yn bodoli, yn enwedig mewn adeiladau ysgol hŷn neu'r rhai sydd â gofod cyfyngedig. Yn ychwanegol, mae angen ystyried yr angen posibl i gynyddu capasiti staff a chostau posibl hyfforddiant staff ychwanegol. Gallai'r rhain wahaniaethu rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol a gallai fod mwy o arwyddocâd ariannol iddynt mewn ysgolion bach neu wledig sydd â chyfleusterau prin.

Bydd goblygiadau caffael yn sgil mabwysiadu cyfran uwch o ffrwythau a llysiau ffres, a chynhyrchion grawn cyflawn. Gallai pwysau yn y gadwyn gyflenwi ac argaeledd tymhorol gyfyngu ar ystod lawn yr amrywiaethau o ffrwythau a llysiau, a gallai ysgolion mewn ardaloedd gwledig neu rai sydd dan anfantais yn economaidd wynebu costau uwch. Gallai newid i ddefnyddio grawn cyflawn a chynnyrch ffres gynyddu costau tymor byr, hefyd.

Er y gallai gweithredu'r rheoliadau gynyddu gwariant tymor byr ar y dechrau, oherwydd seilwaith, hyfforddiant, a newidiadau caffael, gallai arbedion a buddion tymor hwy gronni trwy iechyd gwell disgyblion, llai o wastraff bwyd (gyda chynllunio gwell), ac arbedion maint. Mae'n bwysig fod modelu'r costau yn adlewyrchu'r baich trosiannol a'r cyfleoedd yn y dyfodol, fel ei gilydd, gan alinio â strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach.

Ni fydd yr effaith ariannol yn unffurf ledled Cymru. Gallai ysgolion mewn ardaloedd sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol neu'r rhai sy'n gwasanaethu cyfran uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wynebu costau uwch, ar gyfartaledd. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu mecanweithiau cyllid targedig neu grantiau wedi'u clustnodi i gynorthwyo'r ysgolion hyn i sicrhau cydymffurfiad heb beryglu ansawdd na mynediad.

Felly, rydym yn awgrymu y dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddio terfynol ystyried cyhoeddi senarios cost fesul pryd tryloyw (ysgolion trefol yn erbyn ysgolion gwledig; ysgolion bach yn erbyn ysgolion mawr) ac amlinellu mecanweithiau cyllid—fel trefniadau caffael ar y cyd—i ddiogelu cyllidebau arlwyo.

**Hyrwyddo canllawiau statudol bwyta'n iach: ysgolion cynradd ac uwchradd**

**C 15: A yw'r canllawiau statudol drafft, sydd wedi'u hanelu at gynorthwyo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol i gyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, yn ddigon clir? (Mae croeso i chi ddarparu enghreifftiau o unrhyw beth rydych chi'n meddwl sydd ar goll.)**

Ydyn

**Sylwadau ategol:**

Mae'r canllawiau diwygiedig yn amlinellu'n glir ddyletswyddau awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol i gyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo bwyta'n iach. Maent yn esbonio'n glir y gofynion statudol ar draws adrannau allweddol o'r Mesur, gan gynnwys dyletswyddau i hyrwyddo bwyta'n iach, sicrhau bod dŵr yfed ar gael, diogelu enwau disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, ac annog disgyblion i gael prydau ysgol.

Gallai ychwanegiadau posibl at y canllawiau gynnwys:

- Darparu crynodebau cyfeirio cyflym neu siartiau llif ar gyfer dyletswyddau gan randdeiliaid.
- Cynnwys templedi model neu restrau gwirio ar gyfer adrodd ar gydymffurfio (e.e. ar gyfer adroddiadau blynyddol llywodraethwyr).
- Ychwanegu mwy o astudiaethau achos sy'n arddangos dulliau ysgol gyfan effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau (e.e. ysgolion gwledig yn erbyn ysgolion trefol, ysgolion â chyfraddau PYDd uchel yn erbyn ysgolion â chyfraddau PYDd isel).
- Sicrhau bod llywodraethwyr yn meddu ar ymwybyddiaeth glir o'r ddwy ddogfen newydd sydd angen eu defnyddio gyda'i gilydd i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran bwyta ac yfed yn iach.
- Enghreifftiau ar sefydlu cyfleoedd i gynyddu cyfraniadau / llais y disgybl, er enghraifft trwy gyngor bwyd disgyblion mewn ysgolion i gyd-gynllunio bwydlenni, arwain sesiynau blasu a rhoi adborth ar y profiad bwyta.
- Cryfhau'r cysylltiadau rhwng arlwywyr a'r MDPh Iechyd a Lles, gan sicrhau bod dysgu yn yr ystafell ddosbarth yn atgyfnerthu dewisiadau yn y ffreutur.

**Galw am dystiolaeth: ysgolion uwchradd**

**C 16: Sut gallwn ni sicrhau cynnig bwyd sy'n faethol gytbwys a deniadol mewn ysgolion uwchradd? (Mae croeso i chi ddarparu enghreifftiau o arfer dda neu dystiolaeth sy'n cefnogi'ch ymateb.)**

Mae'r canlynol yn amlinellu awgrymiadau posibl o arfer dda y gellid eu rhannu a'u hyrwyddo mewn dogfennau yn y dyfodol i fodloni'r nod hwn:

- apiau rhagarchebu 'clicio a chasglu' sydd ond yn dangos opsiynau sy'n cydymffurfio;
- trefnu addasiadau sy'n sicrhau o leiaf 20 munud o amser bwyta wrth eistedd;

- "bwndeli gwerth" (e.e. ffrwyth yn ogystal â'r prif bryd bwyd) i wthio tuag at ddewisiadau iachach.
  Gallai arolwg Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2024 ddarparu gwaelodlin ar gyfer gwerthuso effaith;
- annog ysgolion i gyd-gynllunio bwydlenni gyda disgyblion, staff a rhieni i wella'r nifer sy'n cael prydau ysgol;
- gall ymdrechion ar y cyd, fel cynnwys rhieni mewn cynllunio bwydlenni neu drefnu digwyddiadau coginio cymunedol, wella effeithiolrwydd rhaglenni maeth yn yr ysgol;
- hyrwyddo opsiynau cyflym sy'n bodloni safonau maethol (e.e. lapiadau grawn cyflawn gyda phrotein heb lawer o fraster a llysiau);
- cyflwyno labeli gweledol ar gyfer dewisiadau iachach a'r opsiynau hynny sy'n bodloni gofynion deietegol penodol;
- sicrhau bod dewisiadau iach ar gael ym mhob man gwerthu, nid dim ond yn y prif ffreutur;
- ceisio gwella'r profiad bwyta a'r cyfleusterau bwyta ar gyfer disgyblion;
- sicrhau bod y cwricwlwm (gyda ffocws ar y MDPh Iechyd a Lles) yn cysylltu â'r tîm arlwyo o fewn yr ysgol i hyrwyddo bwyta'n iach a dewisiadau iach am ffordd o fyw;
- cynnwys grwpiau arweinyddiaeth disgyblion mewn datblygu a hyrwyddo'r cynnig arlwyo o fewn yr ysgol.

**Cwestiynau gorfodol**

**C 17: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y ddeddfwriaeth ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb yn arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?**

Rydym yn rhagweld na fydd unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Mae cyfle i ddefnyddio'r canllawiau i hyrwyddo termau bwyd Cymraeg trwy fwydlenni ac adnoddau dwyieithog a defnyddio themâu yn seiliedig ar fwyd i gefnogi dysgu am ddiwylliant Cymru. Yn ychwanegol, gellid integreiddio iaith testun mewn dysgu o fewn Cwricwlwm i Gymru o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, ac Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

**C 18: Yn eich barn chi, a allai'r ddeddfwriaeth gael ei ffurfio neu'i newid er mwyn:**

**-cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**

**-liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Gallai'r ddeddfwriaeth:

- Ei gwneud yn ofynnol cael arwyddion dwyieithog ar fwydlenni a deunyddiau hyrwyddo.
- Annog arlwywyr i ddefnyddio termau bwyd Cymraeg (e.e. tatws, pys).
- Ymgorffori geirfa bwyd o fewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fel rhan o addysg ddiwylliannol ehangach.

**C 19: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:**